# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## Ffordd Towyn, Pensarn – Diweddariad Adeiladu

**Hoffai Cartrefi Conwy hysbysu trigolion am y gweithgarwch sydd ar ddod ar ein safle datblygu tai ar Ffordd Towyn.**

### Oriau Gwaith ar ddydd Sadwrn

Pan fo angen, bydd ein contractwyr yn gweithio ar **ddydd Sadwrn rhwng 8:00 y bore a 1:00 y prynhawn**, yn unol â chymeradwyaeth gynllunio'r safle.

Er y gwneir pob ymdrech i leihau aflonyddwch, cofiwch y gall gweithrediadau codi a symudiad peiriannau gynhyrchu rhywfaint o sŵn. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu rheoli i leihau'r effaith ar drigolion cyfagos.

### Gwaith Pilio – Ail Gam

**Mae'r ail gam o'r gwaith pilio wedi'i drefnu i ddechrau ddydd Llun, 29 Medi.** Gall y cam hwn olygu sŵn a dirgryniad ysbeidiol. Bydd yr holl waith yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos, o fewn yr oriau caniataol, am oddeutu 5 wythnos.

### Rheolaethau Llwch ac Amgylcheddol

Er mwyn helpu i leihau llwch, mae rhwydi sgrin wedi'u gosod o amgylch perimedr y safle. Disgwylir i amodau tywydd tymhorol hefyd helpu i gadw lefelau llwch yn isel.

Ymgysylltu â Thrigolion – Cyfarfod Diweddariad Safle

Mae ein Rheolwr Prosiect, Graham, yn gwahodd trigolion i ddod i gyfarfod diweddariad safle, sef cyfle i:

- Weld cynlluniau'r safle a'r cynnydd
- Gofyn cwestiynau
- Dysgu am y camau nesaf yn y datblygiad




Pilio Wedi'i Gwblhau

Ail Gam Pilio

📧 I gofrestru eich diddordeb, anfonwch e-bost atom gyda'ch manylion cyswllt. Bydd cylchlythyr gyda rhagor o ddiweddariadau hefyd yn cael ei ddosbarthu i drigolion.

ℹ️ Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r prosiect hwn, anfonwch e-bost at:
**Pensarn@cartreficonwy.org | cartreficonwy.org/pensarn-housing-development**

Cartrefi Conwy

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

CREU MENTER
CREATING ENTERPRISE